1550/132

Y MADRODDION

HEN

Mr. Dod.

1. NID all dim wneuthur niwed i ni ond Pechod; ac ni chaiff hwnnw wneuthur mo'r niwed i ni os medrwn ni edifarhau am dano. Ac ni all dim wneuthur i ni dda, ond Cariad a ffafor Duw yn Ghrist; a hynny a gawn ni, os nyni a'i ceisiwn mewn gwirion edd.

2. Nid oes nêb mewn cyflwr tosturus, ond yr hwn sydd ganddo galon galed, ac ni fedro weddio.

3. Cymmaint ag a fyddo o Bechod, cymmaint a hynny a fydd o Drymder: Cymmaint ag a fyddo o Sancteiddrwydd, cymmaint a hynny a fydd o Hapysrwydd.

4. Gwna dy Bechod i ti yn Driſtwch mwyaf; felly ni chaiff dy Driſtwch byth wneuthur i ti niwed; Gwna Jeſu Ghriſt yn llawenydd mwyaf i ti; felly ni bydd arnat ti byth mor diffyg llawenydd.

5. Y Gwr y mae Gantho Yſpryd Gweddi, ſydd gantho fwy nà phe bai yr holl fyd ar ei helw.

6. Dau beth a orchymynnodd ef i Gwpl o rai Priod, Gofalon ac ymryſonau: Am y cyntaf, Bydded eich Gofalon, *Pa un a rynga fodd i Ddaw yn fwyaf:* Am eich Ymryſonau, bydded iddynt fôd, *Pa un a garo eu gilydd oreu:* Felly y bydd eich Gofalon a'ch Ymryſonau i ryw ddefnydd da; ac felly pob Gofalon ac Ymryſonau afreidiol a ddiflannant.

7. Os ydych chwi mewn yſtâd Briodol, Gwybyddweh, a choeliwch, er y gallaſech gael Gwraig neu wr gwell neu gyfoethoccach; etto byddwch ſicer, na allaſech chwi fyth gael un cymmhwyſach: Oblegid ei fôd wedi ei ordeinio felly gan Dduw yn y Neſoedd, cyn y gellid ei gyflawni ymma ar y ddaiar: Ac am hynny, er nad ydys yn cyflawni cariad i ti yn ôl; etto gwna di dy ddyledſwydd tuag at dy Briod, o ran ufudd-dod i Dduw; a thi a fyd[illegible]cer o gael cyſſur yn y diwedd, er i Dd[illegible]drin di â Cheryddon dros amſer.

8. Ni ddichon dim Cyſtuddiau, neu Drueni ddigwydd i ni, ond trwy Ordinhâd Duw; ac ni allant wneuthur niwed i ni, eithr rhaid yw iddynt

iddynt wneuthur da i ni, os ydym ni Blant i Dduw. Eithr *yn gyntaf*, Byddwch ſiccr na chymmyſgoch ddim pechod â hwynt; canys hynny yn unic ſy'n eu chwerwi hwynt: *Yn ail*, Nac edrychwch ar y Wialen, ond ar yr hwn ſy yn taro; canys hynny a bair ymddigio a deſtygio heſyd.

9 Os wyt ti yn chwennych bod yn ſiccr fod dy bechodau wedi eu maddeu iti; Cais faddeu y Cammau, a'r Niweidion a wenler i tithau, *Mat.* 6. 14, 15. Yſtria bedwar peth ir diben ymma:

1 Siampl Criſt, yr hwn a faddeuodd iw elynion ac a weddiodd droſtynt. 2 Gorchymmyn Cirſt, *Pan weddioch, maddeûwch os bydd gennych ddim yn erbyn neb.* 3. Addewid Criſt, *Os maddeuwch, maddeuir i chwithau.* 4. Bygythiad Criſt, *Oni faddeuwch, ni faddeuir i chwithau.*

10 Ym mhob Trueni a Chyfyngderau; goreu doethineb yw myned at y Cyfaill hwnnw ar ſydd neſſaf, ewyllyſgaraf, ac applaf i gynnorthwyo; y cyfryw Ffrind yw Duw.

11 Mynych y dywedai ef; Nad oedd iddo achos yn y byd i gwyno rhag ei Groeſau; gan nad oeddynt ond chwerw ffrwyth ei bechodau ef.

12. *Lle mae Pechod yn drwm, mae Croeſau yn yſgafn; ac yn y gwrthwyneb, lle mae Croeſau yn drymion, Pechodau ydynt yſgafn.*

13. Naill ai Gweddi a bair i ddyn beidio a phechu; neu y Pechod a bair i ddyn beidio a gweddio.

14. Pedwar peth a allwn ni ei ddyſgu oddi-

wrth Blant: 1. Ni ofalant am ddim yn afreidiol. 2. Hwy a gyſgant yn ddiſalis. 3. Maent yn ſodlon iw cyflwr. 4. Maent yn oſtyngedig; Plentyn i Frenin a chwery a Phlentyn i Gerdottyn.

15. Nid oes un Cyſtudd cyn lleied, na ſuddem ni dano, oni bai ſod Duw i'n cynnal; *ac nid oes un Pechod mor fawr, na wnaem ni ef, oni bai fod Duw yn ein hattal.*

16. Os rhoddir anfri i ni, neu ein difenwi, neu os gwneir a ni gam gan gyfaill neu elyn, ſe ddylei ſod yn flinach gennym ni o ran y pechod a wneir yn erbyn Duw, nag o ran y farhaad neu'r ammarch a wneir i ni ein hunain.

17. Mae gwr Duwiol yn debyg i Ddafad; pob man ſydd well o'i blegid lle y delo. Gŵr annuwiol ſydd debyg i Afr; pob man ſydd yn waeth o'i blegid; gado y mae ef ſawyr drewllyd ar ei ôl.

18 Cyſtuddiau wedi eu ſancteiddio ydynt oruchafiaethau, neu dderchafiadau yſprydol; ac y maent yn llawer gwell i Griſtion, nà'r holl Arian a'r Aur yn y bŷd; *gan fod profiad ein ffydd yn werthfawroccach ná'r Aur*, 1 Pe. 1. 7.

19. Gwna'r Sabbath yn ddydd marchnad i'th Enaid. Na ollwng un awr i golli, ond bydd naill ai yn Gweddio, ai yn ymddiddan, ai yn Myfyrio. Na feddwl dy feddyliau dy hun; Caffed pob diwrnod ei ddyledſwyddau; tro y Bregeth a glywęch yn ddeſnydd o Weddi; Addyſc yn Erſyniad, Argyoeddiad yn Gyffes; Cyſſur yn ddiolch-

ddiolchgarwch. Meddwl lawer am y Bregeth a glywaiſt, a gwna ryw ddeſnydd o honi yr holl wythnos o hŷd.

20. Bob boreu trwy 'r wythnos rhag-fwrw: 1. *Rhaid i mi farw.* 2. *Mi a allaf farw cyn y nôs.* 3. *I ba le yr â fy enaid, ai ir Nêf ai i vffern*: Bob nôs goſyn ith enaid y Cweſtiwnau hyn.

1. *A ddarfu i mi ddwywaith heddyw ymddaroſtwng ger bron Duw o'r neilltu?* 2. *Pa ſodd y gweddiais? Ai mewn ffydd a Chariad?* 3. *Beth a ſu fy Meddyliau arno y dydd heddyw?* 4. *Beth y ſum i yn i wneuthur yn fy lle a'm galwedigaeth?* 5. *Beth a ſum i mewn Cwmpeini? A leſenais i am bethau da? neu a wrandawais i, a rhoddi i gadw gyda Mair y pethau da a glywais?* 6. *Os adnewyddodd Duw Drugareddau gyda'r boreu, a ſûm i ddiolchgar?* 7. *Os cyfrannodd y diwrnod i mi achos o drymder, a ymddigiais i? Ynteu a orweddais i yn y llwch ger bron Duw? Pan Darfyddo i chwi wneuthur ſul byn lle y buoch chwi yn ddeſſygiol, cyfaddefwch bynny yn athriſt; a llai a fydd y gwaith i chwi iw wneuthur pan ddelo marwolaeth. Gwna ſel byn uniawn gyfrif â'th Dduw bob nôs. Hyn a ſu fy helyntyeunyddiol i, ac a gaiff ſod yn arfer i mi nis ſy marw.*

21. Yr hŷn a ennillom ni drwy Weddi, ni a gawn ei fwynhau mewn diddanwch.

22. Mae Sicerwydd dau-ddyblyg. 1. Sicerwydd Haul-gan. 2. A Lloergan. Y cyntaf yw y llawn ſiccrwydd hwnnw yn *Heb.* 10. 22. Y Lloergan yw hwnnw o'r Gair, *yn hwn da y gwnawn ſod yn dal arno*, 1 Theſ. 1. 5. 2 Pet. 1. 19. Y cyntaf ni roddir ond i ychydig, na bynny ond yn anfynych; a hynny naill ai ar ryw ddyledſwydd ſawr iw chyflawni; neu ryw gyſtwr newydd o ſywyd i ſyned iddo; neu ar ryw

fowrion ddioddefiadau i fyned danynt; am yr hwn y dywaid un, yr oriau (neu r'awrau) y daw, nid ydynt ond anfynych, a byrr y mae yn aros. Yr ail yw yr hwn y rhaid i ni ymddiried iddo, Rhoi goglud ar ficcr Air Duw, drwy ffydd o Ymlyniad, pan ydym ni heb y llall, fef yſpryd o lawn Siccrwydd.

23. Am gyſſur pobl Duw, efe a ddaliodd ſulw allan o'r 129 *Pſalm*, Er bod yr annuwiol yn Arddwŷr ar y Cyfiawn, ac aredig o honynt yn ddwfn. a gwneuthur cwyſau hirion, a hefyd aredig eu calonnau hwynt allan, pes gallent; etto yr Arglwydd cyfiawn, yr hwn ſy yn eiſtedd yn y Nefoedd, ſy yn chwerthin am eu pennau, ac yn torri eu Tidau, a'u rhaffau; ac yna nid allant aredig dim ychwaneg.

24. Yn achos Erlidiadau a Dioddefiadau eraill, fe ddylei pobl Dduw yſtyried yn ddifrifol y pedwar peth hyn: 1. Duw ſydd yn mynni iddynt ſod, ac yn eu hanſon; Weithian Ewyllys Duw ſydd berffaith Reol Cyfiawnder; a'r hyn y mae Duw yn ei wneuthur, a wnaethpwyd cyſtal, nas gallai fynor bod wedi ei wneuthur yn well. 2. Mae yn rhaid wrthynt, oni bai hynny ni chaem ni mo honynt. 3. Eu rhifedi, eu meſur, a'u parhàd a benderfynnwyd gan Dduw; nid ydynt ond tros ennyd fechan, nac yn parhau ond ychydig ddyddiau, *Dat.* 2. 10. nid ydynt rŷ drymion, rŷ aml, neu rŷhir, fel y mynnei 'r Cythrel iddynt ſôd; na rhŷ-anaml, rhy-tyrrion, neu rŷ-yſgaſn, fel y mynnei ein naturiaeth lygredig iddynt ſôd. 4. Ei diwedd ſydd bwys o ogoniant, a'r Goron a'u canlyn ſydd dragwyddol, 2 Cor. 4. 17.

25. Tri pheth a bair i ddŷn ei gyfrif ei hun yn ddedwydd ymma ar y Ddaiar. 1. Cael yſtàd dda;

dda: 2. Ei chael hi mewn lle da: 3. With gymmydogion da. Yn awr y tri hyn y mae y rhai ſydd yn meirw yn yr Arglwydd, yn eu mwynhau mewn modd rhagorol.

1. Eu Neſol Etifeddiaeth ſydd fawr, *Ni welodd llygad, ni chlywodd cluſt y cyffelyb*, 1 Cor. 2. 9. 2. Mae hi mewn lle da, 2 Cor. 5. 1. Y Neſoedd, yr hwn ſydd Dy a wnaethpwyd iddynt hwy, ac a wnaethpwyd gan Dduw; ac am hynny mae'n rhaid iddo fod yn dda. 3. Yn agos at Gymmydogion da: Duw, Criſt, yr Yſpryd, Angelion, a Seintiau. Yr oedd gan *Adda* Etifeddiaeth dda, ac mewn lle da; end yr oedd ganddo Gymmydog drwg, ſef y Cythrael, yr hwn ai blinodd ef, ac a anafodd y cwbl. *Ond nid oes dim Cymmydogion drwg yn y Neſoedd.*

26. Nid yw Dioddefiadau pobl Dduw yn rhwyſtro eu Gweddiau hwynt. *Elias* oedd ddyn yn rhaid iddo ddioddef fel ninnau, ac efe a weddiodd ac a wrandawyd, Jac. 5. 17.

27. Tri pheth ſydd yn cyd-ymganlyn i wneuthur i ſynu y pechod yn erbyn yr Yſpryd glân. 1. *Goleuni yn y meddwl.* 2. *Malis yn y galon.* 3. *Yr anheimlad o'r pechod.* *Y neb ſy yn oſni ddarfod iddo ei bechu ef, ni phechodd ef mo hono trioed.*

28. Y rheſwm pa ham na weithir ar lawer ſydd tan nerthol foddion Gràs, lle y mae llaweroedd ar ſy yn byw o bell, ac yn dywad yn anfynych tan Bregethiad nerthol, yn cael gweithio arnynt drwy hynny, efe a arferei oi roddi drwy'r gyffelybiaeth yma: Megis mewn Tref farchnad, nid oes cymmaint matter gan bobl y Dref am bethau ſy yn y farchnad, a chan y rhai ſydd yn byw yn y wlàd; maent hwy yn dyfod i brynu, a rhaid yw iddynt wneuthur

ſelly

felly; a hwy a fynnant gael y peth ſydd arnynt ei eiſiau, beth bynnag a dalont am dano; lle mae y rhai ſy yn byw yn y Dref, yn tybied y gallant brynu, pa amſer bynnag y gwelont yn dda, ac felly yr eſculuſant brynu yn yr amſer preſennol; ac o'r diwedd, maent yn ſynych iawn yn cael eu ſiommi a'u twyllo.

29. I'n perſwadio ni i beidio a rhoi ſen am ſen, efe a ddywedai; Os Ci a gyfarth ddafad, ni chyfarth y ddafad mo'r Ci.

30. Pedwar O Reſymmau a roddai fo yn erbyn Gofalon anghymhedrol am bethau daiarol, fel na ddianrhydeddem Duw, na'i wadu. 1. *Maent yn afreidiol.* 2. *Maent yn aniſeilaidd.* 3. *Maent yn anfuddiol.* 4. *Maent yn arfer o ddilyn y Cenhedloedd.*

1. Yn afreidiol: Pam y rhaid i ni ofalu, a Duw hefyd? *Gŵyr ein Tad nefol fod arnom eiſiau y pethau hyn*, a pheri y mae ef i ni, *na ofalem am ddim, ond bwrw ein gofal arno ef, yr hwn ſy yn gofalu droſom ni.* Mat. 6. 32. 1 Pet. 5. 7. 2. Yn aniſeilaidd, ie a gwaeth nag aniſeilaidd: *Edrychwch ar adar y nefoedd, a'r cygfrain, y mae efe yn eu porthi hwynt, er nad ydynt yn llafurio*, Mat. 6. 26. 3. Maent yn Anfuddiol ac yn ddilês. *Pwy o honoch gan ofalu a ddichon chwanegu un cufydd at ei faintioli, neu un geiniog at ei olud*, Mat. 6. 27. 4. Arfer y Cenhedloedd yw, *Yr holl bethau hyn y mae y Cenhedloedd yn eu ceiſio.* Mat. 6. 32.

31. Mae bagad yn y byd yn cymmeryd yr enw o fod yn Sainct ar dyb da eraill am danynt; ac yn marchanatta yn nyledſwyddau Crefydd, ar y goel a ennillaſant oddiwrth Opiniwnau da rhai eraill am danynt hwy, a'u proffeſs: Credu y maent eu bod eu hunain yn Griſtianogion, oblegid bod eraill yn gobeithio eu bod hwy felly;

felly; ac hwy a negeſeuant â zêl gwreſog, mewn dyledſwyddau ſy yn ſefyll oddiallan, i gynnal eu Henw da; *eithr ni edrychant un amſer am y Stocc o gadarn Râs oddifewn*; a hyn ſydd yn anafu llawer.

32. Fel yr ydym ni yn darllen am *fara beunyddiol*, felly hefyd am *Groes feunyddiol*, *Luc* 9. 23. yr hon y perir i ni ei *chodi*, nid ei *gwneuthur*. Nid rhaid i ni mor gwneuthur Croeſau *i ni* ein hunain (fal yr ydym ni yn rhy barod i wneuthur) ond gadawn i Dduw eu gwneuthur hwynt i ni: Croeſau a wneir yn y Neſoedd, ſydd fwyaf cymmwys i geſnau'r Sainct; ac ni waſanaetha i ni moi rhoddi hwy i lawr, nes iddynt hwy a ninnau orwedd i lawr ynghyd.

33. Ymadrodd hynodol oedd hwnnw o'r eiddo Gwr ſanctaidd, *Diſoddwch uſſern, a lloſgwch y Neſoedd, etto myſi a garaf, ac a ofnaf ſy Nuw.*

34. Nid crochleſain yn erbyn y Cythrael, nac ymadroddi yn erbyn Pechod mewn Gweddi, neu Ymddiddanion; ond ymladd â'r Cythrael, a marweiddio ein Trachwantau, yw'r hyn y mae Duw yn bernaf yn edrych arno.

35. Y mae'r Proffeſſwr gwâg yn Siommi neu'n twyllo dau ar unwaith; *Y Byd, yr hwn wrth weled dail, ſy yn diſgwyl ffrwythau, ond nid yw yn cael dim.* 2. *Ei hunan, yr hwn ſy yn tybied cyrraedd y Neſoedd, ond ſy yn dyfod yn fyrr o honi.*

36. Yr unig ffordd i Enaid cyſtuddiol, ni fedro ymafaelio neu ymaflyd mewn Cyſſurau o'r blaen, oblegid Gwrthdroeadau neu bechodau ar ôl, ac felly ſy yn ammeu ei holl ſicrwydd o'r blaen, yw, *Adnewyddu ei Ediſeirwch, fel pe buaſei ef heb gredu erioed:*

37. Hawdd gan rai feddwl pe baent yn y cyfryw Deulu, dan y cyfryw Weinidog, allan o'r

cyfryw

cyfryw Demptasiwnau, nad ymmyrrau'r Cythrael â hwynt, fel y mae. Eithr y cyfryw rai a ddylaent wybod. Mai cyhyd ag y byddo ei hen Gyfaill ef, fef y cnawd yn fyw oddi fewn, y bydd ynteu yn curo wrth y drws oddiallan.

38. Yr hadau a hauwyd yn Naturiaeth Diafol a'r Sainct ydynt cyn ddyfned, na ddiwreiddir hwy byth, hyd oni pheidio y Cythrael a bod yn Gythrael, a Phechod a bod yn Bechod, a Sainct a bod yn Sainct.

39. Melinydd Diafol yw'r pechadur, yn malu yn wastadol; ar Diafol sydd yn wastad yn llenwi yr Hoppran, neu'r pin fel na safo'r felin.

40. Mae rhai pechodau na feidr dyn anwybodus moi Gwneuthur; eithr y mae llawer ychwanég na feidr dyn anwybodus ond eu gwneuthur.

41. Y mae pump o rwymau, â phâ rai y rhwymodd Duw'r Nefoedd ef ei hun i fod yn Gard neu'n Geidwad i gadw einioes y Sainct, yn erbyn Gallu y Tywyllwch. 1. *Ei berthynas iddynt megis Tâd.* 2. *Ei Gariad ef iddynt, o ran ei bod hwynt yn Esgoredigaeth ei Gyngor Tragwyddol ef, megis cyfrannogion o'i Lûn ef ei hun.* 3. *Pridwerth Gwaed ei fab, a'i Gyfammod â hwynt.* 4. *Eu Goglud arno ef, a'u Disgwyliad oddiwrtho, yn eu holl gyfngderau:* yn awr *Disgwyliad a gobaith y trueiniaid ni chollir byth,* Psalm 9. 18. 5. *Gwaith presennol Crist yn y Nefoedd, yw edrych am fod pob peth yn cael ei ddwyn rhagddo yn dêg rhwng Duw â'i Bobl.*

42. Bara haidd gyd â'r Efengyl sydd ymborth da.

Byrr yw oes Dyn.

FEl Gwenol *Job* mae 'n hoes yn llithro,
Fel Rhoſſyn *Dafydd* mae hi 'n gwywo,
Fel gyrfa *Paul* y mae 'n diweddi,
Fel Bwmbwl *Jago* mae 'n diffoddi.

Fel canwyll gŵyr mae 'n hoes yn treulio.
Fel llong dan hwyl mae 'n myned heibio,
Fel poſt dan ſawd mae 'n pedwar carnu,
Fel cyſcod cwmmwl mae 'n difflannu.

Gwann yw 'n tai, a chryf yw'n Gelyn,
Byrr yw'n Terem, ſuwr yw'n terfyn,
Ancertennol yw ddyſodiad,
Byddwn barod yn ei wiliad.

Myfyrdod ar Fywyd ac Angeu.

PA gynta bytho marw Criſtion,
Cynta derbyn hwnnw ei Goron:
Pa hwya bytho Chriſtion byw,
Hwya bydd heb weled Duw.

Pa hwya byddo dyn heb farw,
Mwya fydd gofynnion hwnnw:
Pa gynta tynner dyn o'i wegi,
Lleia gyd y fydd ei gyfri.

Chriſt

Crist yw Pren y Bywyd.

DEwch bôb rhai at Bren y bywyd,
Dewch at Ghrist ein prynwr hyfryd;
Mwynhewch y ffrwyth, a chredwch yntho.
Chwi gewch râs a bywyd gantho.

Dymma 'r Pren y dynn y ddingcod,
A'r newyn du, a'r poen, a'r pechod,
A'r melldith Duw, a'r loes wenwynig,
Y ddaeth o fwytta 'r pren gwarddedig.

O! bwyttewch o'r pren yn rhád,
O'r nef y daeth, oddiwrth y Tâd,
I'n gyrru 'n Jach, i gadw 'n bywyd,
I dorri 'n chwant, i roi i'n Jechyd.

Mae 'ffrwyth e'n ber, mae ddail yn Jachus,
Mae flâs yn well nâ'r Manna melus:
Ni all newyn byth, nac Angau,
Drwblo'r dyn y fwytty ei ffrwythau.

Christ yw'r pren, Oh! dewch bawb attó,
Y ffrwyth yw'r bywyd y sydd ynddo;
Y dail yw'r gair, a'i gyngor Jachus,
Sy'n bywhau yr enaid clwyfus.

Dewch bôb rhai, sy'n flin eu cyflwr,
Dewch at Ghrist, ein gwir Jachawdwr,
Dewch i dderbyn grâs a Jechyd,
Cymmorth, cynffordd, bawb o'r holl-fyd.

Dewn at y Pren, bwyttawn ei ffrwythau,
Cynhown ei ddail, rhown wrth ein clwyfau:
[illegible] gwir Jacha, se dyrr ein newyn,
[illegible] i'n fyw, dros fyth heb derfyn.

TERFYN.